

Adolygiad strategol o delegyfathrebiadau, ac ymrwymadau a dderbyniwyd gan BT

Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2004, cyhoeddom ymgynghoriad cam 1 ein hadolygiad strategol o delegyfathrebiadau ('yr adolygiad telegyfathrebiadau'). Lluniwyd yr adolygiad i nodi ein strategaeth ar gyfer ein gweithgareddau telegyfathrebiadau, ac i lunio cytundeb newydd rhyngom ni, y cwmnïau a reoleiddiwn ac aelodau o'r cyhoedd.

Yn y ddogfen ymgynghori cam 1 honno, gofynnwyd pum cwestiwn sylfaenol.

1. Beth yw prif rinweddau marchnad delegyfathrebiadau sy'n gwasanaethu ei chwsmeriaid yn dda?
2. Ble y gallwn ni gyflawni cystadleuaeth effeithiol, tymor hir ym marchnad delegyfathrebiadau y DG?
3. A ddylai fod llai o reoleiddio mewn telegyfathrebiadau? Neu a oes gan y cwmnïau mawrion ormod o bŵer i ni ystyried y llwybr hwn?
4. Sut y gallwn sicrhau y caiff y rhwydweithiau technoleg newydd y buddsoddiadau y mae arnynt eu hangen, a hynny heb oedi?
5. Dros y blynyddoedd, mae pobl wedi gofyn a ddylai'r rheoleiddiwr perthnasol ymrannu BT rywfodd, neu gynyddu gallu sefydliadau eraill i gystadlu â BT. A yw hwn yn gwestiwn perthnasol o hyd yn eich barn chi?

Yn ein datganiad terfynol, rydym yn ateb y cwestiynau hyn, ac yn nodi ein hymagwedd strategol tuag at reoleiddio telegyfathrebiadau.

1. Rhinweddau marchnad delegyfathrebiadau sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yn dda

Awgrymodd ein hymchwil i'r farchnad a'n hymgynghoriad fod ar fusnesau a chwsmeriaid eisiau dewis, a gwasanaethau newydd (fel band eang) wedi'u cyflwyno'n gyflym, yn ogystal â gwasanaethau telegyfathrebiadau dibynadwy, sylfaenol am brisiau isel. Ystyriom mai'r ffordd fwyaf effeithiol i gyflwyno hyn yw trwy gystadleuaeth rhwng cwmnïau telegyfathrebiadau sy'n rhedeg eu rhwydweithiau eu hunain, ble bynnag y gall cystadleuaeth fel hyn fod yn effeithiol ac yn hirhoedlog. Dangoswyd gennym hefyd efallai na all y mathau o gystadleuaeth a oedd yn fuddiol i ddefnyddwyr hyd heddiw fodoli yn yr un ffordd yn y dyfodol, felly nid oedd cadw ein hymagwedd reoleiddio gyfredol yn opsiwn.

Hyd yn oed os cystadleuaeth yw'r ffordd orau i gyflwyno'r hyn y mae ar ddefnyddwyr ei eisiau, ni fydd yn gweithio oni all cwsmeriaid wneud dewisiadau gwybodus, a newid cyflenwyr yn rhwydd. Dangosodd ein hymchwil y caiff rhai grwpiau o ddefnyddwyr amryw anawsterau wrth wneud y dewisiadau hyn. Er y gallech ddweud yr un peth am farchnadoedd eraill, mae nodweddion ar rai marchnadoedd telegyfathrebiadau sy'n gwneud y problemau hyn yn waeth, er enghraifft gan fod pobl yn aml yn ei chael yn anodd cymharu pecynnau pris cymhleth ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau. Er na chredwn y dylem adael y broblem hon i'r farchnad bob amser, mae'n bwysig bod gan unrhyw beth a wnawn y nod o helpu'r grwpiau penodol o ddefnyddwyr sy'n cael problemau. Rydym wrthi'n gwneud newidiadau mewn nifer o feysydd a byddwn yn edrych ar y mater hwn yn fanylach yn ein hadolygiad ehangach o bolisi defnyddwyr.

2. Ble y gellir cyflawni cystadleuaeth effeithiol, tymor hir

Er y dangoswyd bod cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn gweithio'n dda gyda ffonau symudol, nid dyma fu'r achos gyda thelegyfathrebiadau llinell sefydlog. Mewn telegyfathrebiadau llinell sefydlog, canfuom yr hyn a alwyd yn 'dagfeydd economaidd parhaol' - mewn geiriau eraill, rhannau o rwydweithiau llinell sefydlog lle nad oedd cystadleuaeth effeithiol, hirhoedlog yn debygol yn y tymor byr i'r tymor canolig. Am y rheswm hwn credwn mai nod rheoleiddio dylai fod helpu cystadleuaeth rhwng gwahanol rwydweithiau y tu allan i'r tagfeydd hyn, mewn geiriau eraill lle'r *oedd* yn debygol bod cystadleuaeth effeithiol, hirhoedlog yn bosibl. Fodd bynnag, roedd angen o hyd ar gwmnïau a oedd eisiau cystadlu yn y modd hwn i BT roi mynediad iddynt i rannau o'i rwydwaith llinell sefydlog. Daethom i'r casgliad fod angen i BT roi mynediad o'r fath i'w gystadleuwyr ar yr un telerau ag y caiff ei hun, er mwyn cael cystadleuaeth effeithiol mewn telegyfathrebiadau llinell sefydlog. Ein henw ar hwn yw 'mynediad cyfartal'.

3. A ddylai fod llai o reoleiddio mewn telegyfathrebiadau

Os cyflwynir mynediad cyfartal i alluogi mynediad i'r tagfeydd hyn, disgwylwn allu dileu rheoleiddio mewn manau eraill (er enghraifft, mewn rhai marchnadoedd telegyfathrebiadau adwerthu). Gallai'r cyfryw ddadreoleiddio fod ar ddwy ffurf:

- a. dileu rhai o'r rheolau arbennig y mae'n rhaid i BT eu dilyn lle'r ydym wedi canfod bod ganddo fantais sylweddol dros y gystadleuaeth mewn marchnad benodol (sef 'pŵer sylweddol yn y farchnad' neu SMP); neu
- b. mewn rhai achosion, canfod nad oes gan BT unrhyw bŵer sylweddol o'r fath yn y farchnad, ac felly ni ddylai orfod dilyn unrhyw reolau arbennig.

Rydym wedi nodi ein hymagwedd at ddadreoleiddio yn y datganiad.

4. Buddsoddi mewn rhwydweithiau technoleg newydd

Wrth i dechnoleg ddatblygu a bod angen adnewyddu rhwydweithiau telegyfathrebiadau heddiw cyn hir, mae'n benodol bwysig bod rheoleiddio'n parhau i annog cwmnïau i fuddsoddi'n effeithlon. Disgrifiwyd ein hymagwedd at reoleiddio buddsoddiadau mentrus mewn datganiad ar 18 Awst 2005, y gallwch ei weld ar ein gwefan ar: www.ofcom.org.uk. Fodd bynnag, gall fod yn her benodol sicrhau na chaiff cwmnïau eu digalonni rhag buddsoddi mewn 'rhwydweithiau mynediad', sef rhannau'r rhwydwaith sy'n cysylltu'n uniongyrchol â thai cwsmeriaid neu adeiladau busnes. Rydym yn dechrau adolygiad o fynediad er mwyn edrych yn benodol ar y mater hwn.

5. Cyflawni mynediad cyfartal mewn telegyfathrebiadau sefydlog

Gofynnodd y cwestiwn olaf a oedd yn briodol gofyn a ddylid ymrannu BT mewn rhyw ffordd, neu gynyddu gallu sefydliadau eraill i gystadlu ag ef. Mae'r ymagwedd sy'n well gennym yn cynnwys BT yn rhoi'r un mynediad i'w gystadleuwyr i rannau 'tagfeydd' ei rwydwaith ag y mae'n ei roi i'w hun, a BT yn gwneud rhai newidiadau cyfundrefnol. Trafodwn yn yr adran nesaf sut y disgwyliwn i BT gyflawni hyn.

Ymrwymadau a roddwyd i ni gan BT

Ym mis Mehefin 2005, cynigodd BT set o ymrwymadau i ni (neu addewidion ffurfiol, cyfreithiol rwymol) yn hytrach na chael ei atgyfeirio gennym i'r Comisiwn Cystadleuaeth dan Ddeddf Menter 2002. Gall y Comisiwn Cystadleuaeth edrych ar ystod o ddewisiadau, a allai gynnwys ymrannu BT.

Ar 30 Mehefin 2005, cyhoeddodd ddogfen ymgynghori (y gallwch ei gweld ar ein gwefan ar: [URL](#)) i ystyried a ddylem dderbyn yr ymrwymadau hyn. Gwnaethom esbonio pam yr oeddem yn credu bod BT, pan roddodd fynediad i rannau o'i rwydwaith, yn dal yn gallu rhoi mantais i'w weithrediadau ei hun dros weithrediadau ei gystadleuwyr. Esboniom hefyd pam yr oeddem yn amau o bosib bod rhai o'r pethau a wnaeth BT yn y gorffennol fod wedi rhwystro cystadleuaeth.

Cawsom ryw 40 ymateb i'n hymgynghoriad ym mis Mehefin ar yr ymrwymadau hyn, a gallwch weld yr ymatebion hyn ar ein gwefan www.ofcom.org.uk. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn y dylem dderbyn ymrwymadau gan BT yn hytrach na gwneud atgyfeiriad dan y Ddeddf Menter. Ar ôl ystyried yn llawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ar ôl cytuno ar rai newidiadau i'r ymrwymadau gyda BT, rydym wedi penderfynu derbyn yr ymrwymadau yn hytrach na gwneud atgyfeiriad i'r Comisiwn Cystadleuaeth. Disgwyliwn i'r ymrwymadau hyn arwain at fynediad cyfartal. Gallwch weld testun cyfan yr ymrwymadau a dderbyniom gan BT yn atodiad A yn y prif ddatganiad ar ein gwefan ar: www.ofcom.org.uk.

Dywedodd llawer o ymatebwyr pa mor bwysig y byddai i ni barhau i ymwneud yn llawn â pha mor dda y mae BT yn dilyn yr ymrwymadau hyn. Credant hefyd y dylem ddweud sut y byddem yn mesur llwyddiant ein hymagwedd reoleiddio. Cytunwn â hynny, ac rydym wedi nodi ein hymagwedd arfaethedig ym mhennod olaf ein datganiad llawn. Yn benodol, credwn ei bod yn bwysig y dylem fesur a yw BT yn dilyn ei ymrwymadau ac, yn ehangach, a yw ein hymagwedd reoleiddio gyffredinol yn cyflwyno'r mathau o ganlyniadau y mae ar fusnesau a defnyddwyr eu heisiau.